Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Aberdâr
# Canolfan yr Urdd
# Wind Street
# Aberdâr
# CF44 7ES

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Aberdâr. Mae'n cwrdd mewn ystafelloedd ar lawr isaf Canolfan yr Urdd yn nhref Aberdâr, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'r lleoliad yn darparu addysg a gofal bum niwrnod yr wythnos rhwng 9.00 y bore a 4.00 y prynhawn yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 22 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac mae'n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae rhan fwyaf o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi saith ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ebrill 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2017 a gan Estyn ym mis Ionawr 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu ac yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol, sy'n herio'r plant yn bwrpasol ac yn gwella'u dysgu
- ymarferwyr yn gweithio'n fwriadus gyda'i gilydd yn ddyddiol i wella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant
- disgwyliadau uchel ac addysgu cadarnhaol yr ymarferwyr yn sicrhau gwelliannau rheolaidd yn neilliannau'r plant
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu ac ethos pwrpasol
- ardaloedd dysgu ac adnoddau parod yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd a'r rheolwraig yn gosod cyfeiriad clir i'r gwaith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- cydweithio effeithiol rhwng yr holl oedolion
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn briodol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- systemau hunanarfarnu addas yn arwain at osod targedau defnyddiol, sy'n cael effaith bwrpasol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- partneriaethau pwrpasol ag asiantaethau allanol
- arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i gynnal yr adeilad a'r ardal allanol yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl blant yn ymateb yn rheolaidd yn y Gymraeg

A2 Sicrhau bod arferion monitro'r pwyllgor rheoli yn drylwyr a chadarn ac yn arwain at welliannau cyson

A3 Creu cyswllt cadarn rhwng deilliannau hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu

A4 Creu arferion effeithiol i gysylltu a chyfathrebu â rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o fannau cychwyn sydd, ar y cyfan, yn is na'r cyfartaledd disgwyliedig. Mae medrau cychwynnol bron pob un plentyn yn isel yn y Gymraeg.

Mae llawer o'r plant yn cyfathrebu'n glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth ymateb i syniadau ei gilydd, trwy ddefnyddio'r Saesneg ac ychydig o Gymraeg. O ganlyniad, maent yn cynnal trafodaethau brwdfrydig gydag oedolion a chyfoedion wrth iddynt greu eirth gyda thoes ac ysbienddrychau allan o silindrau a chortyn. Mae llawer ohonynt yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn gweithredu arnynt yn dda. Mae hyn yn weladwy pan fyddant yn creu pawennau wrth brintio â thatws a'u bysedd gyda phaent a chwilio am drychfilod yn y pridd yn yr ardal allanol. Yn ogystal, mae llawer o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u dewisiadau yn bwrpasol wrth iddynt gytuno ar ba rolau i chwarae yn yr ardal gartref wrth baratoi brechdanau ar gyfer ymweliad i'r goedwig.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau wrth eistedd a thrafod y cynnwys gyda'i gilydd ac oedolion yn yr ardaloedd llyfrau, tu mewn a thu allan. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn synhwyrol gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin y llyfrau fel darllenwyr deallus. O ganlyniad, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau amrywiol fel helfa ynghanol y coed. Mae lleiafrif ohonynt yn mynegi eu barnau'n ystyrlon wrth chwarae'n ddigymell a dan arweiniad oedolyn. Mae hyn yn digwydd pan fyddant yn trefnu digwyddiadau stori ar bapur i greu collage ac wrth iddynt wneud marciau a dilyn llinellau igam-ogam ag ysgrifbinnau lliw. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus eto wrth wneud hyn, a Saesneg yw'r prif gyfrwng iaith ymysg y plant.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n fwriadus gyda amrywiaeth o gyfryngau fel sialc, pensiliau a phaent. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac mae ychydig ohonynt yn ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol. Mae mwyafrif o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn glir yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth iddynt wneud marciau ar y bwrdd rhyngweithiol ac wrth gyfeirio llythyron i'w cartrefi.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn gywir. Mae rhan fwyaf o'r plant yn trafod nodweddion siapiau gwahanol yn effeithiol ac yn nodi'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhyngddynt yn ddeallus. Mae llawer ohonynt yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio gefel yn fwriadus i gasglu a rhifo creaduriaid y môr, cyn eu didoli yn ôl maint. Maent yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn hyderus fel cylch fflat ar bapur a pheli yn yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl siâp a lliw yn gywir yn erbyn gwrthrychau tebyg fel tedis gwahanol a threnau ar drac.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn llwyddiannus wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau, sy'n cynnwys teganau electronig â batris, bocs golau, recordydd llais a chamerâu. Maent hefyd yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi a'r bwrdd rhyngweithiol i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn effeithiol.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl craff trwy weithgareddau diddorol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Maent yn gweithio'n frwd gydag eraill wrth ymchwilio am greaduriaid yn yr ardal allanol a'r ardal byd bach. Yn ogystal, maent yn cymharu cyfaint a chynhwysedd yn hyderus wrth drafod blychau gwahanol, ac os ydynt yn 'llawn' neu'n 'wag' ar ôl eu llenwi â thywod a'u gwagio.

Mae medrau creadigol bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Maent yn creu synau tawel ac uchel gydag offer y gegin yn yr ardal allanol ac yn esbonio'r gwahaniaeth rhyngddynt yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn peintio, argraffu a cherflunio â thoes i adlewyrchu nodweddion y thema, fel wyneb arth a thaith heibio'r llyn. Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth yrru o amgylch y mannau agored yn egnïol ar feiciau a cherbydau a dawnsio yn frwdfrydig i gerddoriaeth gyffrous yn y neuadd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ymddiddori yn eu dysgu ac yn dangos cymhelliant wrth ymgymryd â'r gweithgareddau, naill ai yn yr adeilad neu yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gweithio'n ddiwyd yn ystod eu tasgau. Maent yn frwdfrydig wrth gydweithio mewn grwpiau ac yn mwynhau'r tasgau a ddarperir, fel gosod llestri yn eu trefn yn yr ardal chwarae rôl a chymysgu ewyn eillio gyda gliter yn y dŵr.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at oedolion a'i gilydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr, er enghraifft wrth iddynt drafod trefn stori a chyfatebu'r digwyddiadau yn y stori â rhifau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel pan fyddant yn rhifo blociau i adeiladu tŵr ac arllwys dŵr i mewn i gafnau i greu llifau araf a chyflym.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr deallus. Maent yn dechrau gwneud dewisiadau effeithiol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud penderfyniadau personol yn dda, fel symud o un ardal chwarae i'r llall yn annibynnol.

Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae rhydd creadigol a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb lawer o anogaeth gan oedolion. O ganlyniad, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid yn dda ac adnabod ei bwysigrwydd i gynnal bywydau iach heb heintiau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn ddiddorol ac yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu difyr, sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn bwrpasol. Maent yn cyfarfod yn wythnosol i gynllunio gweithgareddau ysgogol ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Mae'r cynllunio trefnus yn cymell y plant yn fwriadus i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymharu cysgodion a nwyddau llachar ar arwyneb y bocs golau a recordio eu profiadau ar glipffyrdd sain wrth hela am eirth.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn canolbwyntio'n frwd ar ddatblygu dysgwyr annibynnol, tu mewn i'r adeilad a thu allan. Enghreifftiau gweithredol o hyn yw'r cyfleoedd niferus i blant ddewis llyfrau fel unigolion yn y corneli darllen a defnyddio cyfarpar a bwydydd perthnasol i lenwi brechdanau cyn eu torri'n hanner. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach trwy holi a chofnodion defnyddiol. Maent yn gwrando ddeallus ar syniadau'r plant er mwyn ychwanegu'n effeithiol at eu brwdfrydedd dyddiol. Yn ychwanegol, i gyfateb i'r cynllunio, mae'r ymarferwyr yn arddangos targedau penodol yn yr ardaloedd dysgu yn effeithiol i'w hatgoffa am beth yw diben y dasg a ddarperir. O ganlyniad, mae'r ffocws clir sydd ganddynt ar herio unigolion a grwpiau yn adeiladu'n gadarnhaol ar gymhelliant y plant, fel gadael iddynt blannu tatws ac wynwyn yn yr ardaloedd tyfu.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a TGCh y plant. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i gyflawni ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd buddiol i blant wneud siapiau a marciau'n annibynnol ar fyrddau du â sialc a phrintio gydag ysgrifbinnau lliw i greu patrymau amrywiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio ystod o offer, fel clipfyrddau sy'n recordio'r llais, llechi a theganau electronig a'r bwrdd rhyngweithiol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant yn dda, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol y plant. Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus, llithro a chwarae'n fywiog yn yr ardal allanol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn cydweithio â'r plant i symud fel trên i dempo ac amseriad cerddoriaeth, wrth ymarfer eu cyrff yn y neuadd. O ganlyniad, mae'r plant yn ymroi'n llwyr i'r weithgaredd.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ddefnyddiol. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn synhwyrol trwy ailadrodd geiriau a phatrymau iaith cyfarwydd yn gyson. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r Gymraeg yn datblygu'n briodol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ymweliadau i gastell y brif ddinas, coginio cawl a phobi picau ar y maen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i siopau'r dref, yr amgueddfa, coedwigoedd cyfagos a'r llyfrgell. Mae ymwelwyr fel aelodau o gwmni opera, glanweithydd deintyddol, sŵ teithiol a rhieni ag anifeiliaid anwes yn addysgu'r plant yn effeithiol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cwricwlwm a sut i drefnu darpariaeth eang a chytbwys.

Mae ymarferwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n drylwyr. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogel yn perthyn i'w gwaith, dan do ac yn yr ardal allanol. Mae hyn yn cefnogi'r plant yn dda ac yn annog eu cyfranogiad a'u mwynhad yn fwriadus ym mhob gweithgaredd.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn gyson trwy dasgau ffocws a pharhaus. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn ddefnyddiol wrth iddynt fodelu patrymau iaith a geirfa syml. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn ddeallus ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysbrydoli a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod awch ac awydd y plant i weithio yn uchel a bod cyfleoedd eang ar gael i ddysgu trwy chwarae. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i nodi nodweddion anifeiliaid ar ôl iddynt ddefnyddio chwyddwydrau yn yr ardaloedd ymchwilio.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn gadarn. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir i ddeilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn cyd-drafod anghenion a datblygiad y plant fel gweithwyr allweddol ag eraill yn dda, i sicrhau bod ganddynt ddarlun cynhwysfawr ar gyfer pob plentyn. Yn ogystal, maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn eu cynllunio.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn darparu llyfryn o waith y plant i rieni ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon effeithiol yn bodoli er mwyn iddynt wybod am gynnydd a chyflawniad eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo'r gwerthoedd sy'n perthyn i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amseroedd cylch a byrbryd, i feithrin y gwerthoedd hyn yn bwrpasol ym mywyd dyddiol y plant. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r plant yn ystyried teimladau eu cyfoedion yn synhwyrol, yn ymwneud â'i gilydd yn gwrtais ac yn parchu eraill, gan gynnwys yr ymarferwyr.

Mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ffocws cadarn ar greu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i'r plant feddwl am deimladau eraill a dweud diolch. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod gweithgareddau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo a'u sychu, ac arllwys diod o jygiau i'w gilydd yn gyfrifol.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer eu cyrff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig, dŵr mewn casgen a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn yn dileu unrhyw aflonyddwch ac ymddygiad gwael. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen a gweithdrefnau cyfeirio'r awdurdod lleol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fo'r angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae hyn yn arwain at greu cymuned gynhwysol lle mae'r plant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gwyliadwrus.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu hagweddau brwdfrydig a synhwyrol. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddathlu'r gwyliau Cristnogol, y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, Holi, Diwali a Hanukkah.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n dda i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod o adnoddau yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant eu hestyn a'u rhoi heibio heb ymyrraeth oedolion wrth dacluso ac yn ystod eu gweithgareddau. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh pwrpasol i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol cyfyng yn cael ei defnyddio'n dda. Mae'n cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr a thywod ac ardaloedd ymchwilio, fel hela am drychfilod. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn defnyddio neuadd yr adeilad yn dda a chyfleusterau lleol yn effeithiol, drwy fynd â'r plant i amryw leoedd, sy'n rhan o'u milltir sgwâr, fel marchnad y dref.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad pwrpasol i arferion dyddiol y lleoliad. Mae hi'n gweithio'n agos iawn gyda rheolwraig y lleoliad, sydd hefyd yn rheoli lleoliad cyfagos arall. Mae'r lleoliadau yn cydweithio'n dda ynglŷn â staffio a rhannu arbenigedd. Mae'r arferion hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n fwriadus. O ganlyniad, mae gweledigaeth graff yr arweinydd yn sicrhau bod y cynllunio o ran profiadau dysgu, yr addysgu a'r gofal yn effeithiol.

Mae amcanion a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithlon ar wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn bwrpasol ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n synhwyrol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr eraill ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn cymell y plant yn ddyddiol i wella mewn ffyrdd cefnogol trwy addysgu effeithiol, yn enwedig trwy gynnig gweithgareddau i gefnogi eu hannibyniaeth yn ddyddiol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â phlethu holl agweddau'r cynllunio gyda'r asesu i ddarparu cwricwlwm pwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnig gweithgareddau diddorol i'r plant. Maent wedi llwyddo i greu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, yn enwedig yn yr awyr agored, lle mae canopi electronig yn ei le a defnydd creadigol o'r waliau a'r ardaloedd plannu yn bodoli. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu'r strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn gadarn, er mai'r rheolwraig sy'n dueddol i arwain y broses hon fwyaf. Mae'r rheolwraig yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson ac, o'r herwydd, maent yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm, a than arweiniad y rheolwraig, maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau'n fanwl.

Mae'r pwyllgor rheoli'n defnyddio trefniadau sefydlog er mwyn derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn gyson gan yr arweinydd a'r rheolwraig. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor rheoli yn cyfrannu'n ddigon trylwyr at gyfeiriad strategol y lleoliad trwy fonitro'r ddarpariaeth a chynnydd y plant yn rheolaidd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn cael eu cynnal yn flynyddol ac yn rhan reolaidd o arferion gwella'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy ddefnyddio systemau meintiol yr awdurdod lleol fel man cychwyn.

Mae gan y rheolwraig a'r arweinydd ddealltwriaeth eithaf cadarn o gryfderau'r lleoliad ac adnabyddiaeth o'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r gweithdrefnau'n ffocysu'n ormodol ar y newidiadau yn y ddarpariaeth yn y gorffennol, yn hytrach na'r effaith ar y sefyllfa gyfredol yng ngwaith y lleoliad. O ganlyniad, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o weithdrefnau'r hunanarfarnu. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu'n cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella ychydig o feysydd ymhellach.

Mae'r cydweithredu rhwng yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith ac ymdrechu'n drylwyr i wella'r ddarpariaeth ynglŷn â'r Gymraeg, trwy gyflogi ymarferwyr sy'n rhugl yn yr iaith.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu yn unol â'u cyngor yn rheolaidd trwy ddatblygu'r ddogfennaeth ymhellach a mynychu hyfforddiant perthnasol. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig, fel gwella profiadau yn yr ardaloedd mewnol, trwy ailstrwythuro cynllun yr ystafell a chanolbwyntio ar wella medrau Cymraeg yr ymarferwyr i addysgu a chefnogi'r plant yn well.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae cyswllt cadarnhaol gyda'r ysgolion lleol, sy'n darparu addysg trwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn cryfhau trefniadau pontio'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn cyfrannu at ymgartrefu'n fuddiol yn eu hysgolion newydd. Mae'r berthynas ag ysgolion Cymraeg yr ardal yn dechrau datblygu'n briodol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn cydweithio'n hynod o lwyddiannus gyda lleoliad cyfagos. Mae'r ddau yn rhannu ymarferwyr yn bwrpasol ac yn targedu anghenion penodol trwy ddefnyddio arbenigedd yr ymarferwyr yn ddoeth.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd o waith y lleoliad. Mae'r sesiynau a gynhelir i drafod cynnydd y plant wedi dechrau codi ymwybyddiaeth rhieni o gyflawniad eu plant ac maent yn darparu cyfleoedd da i arddangos a thrafod y gwelliannau yn eu gwaith. Fodd bynnag, datblygiadau diweddar iawn yw rhain, ac nid ydynt wedi cael digon o amser eto i effeithio ar ddeilliannau'r plant.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant cymorth cyntaf, amddiffyn plant a chyrsiau hylendid bwyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r rheolwraig yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn ddeallus, yn dyrannu adnoddau'n bwrpasol ac yn cydweithio â'r lleoliad cyfagos yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae arferion arwain cadarn yr arweinydd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. Effaith yr arferion hyn yw cymuned ddysgu gadarn, sydd â diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a'r partneriaid sy'n cefnogi'r lleoliad, fel yr awdurdod lleol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad, sydd o dan ofal y rheolwraig, yn drwyadl ac yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys newid yr ardaloedd dysgu dan do ac allanol yn achlysurol i ysgogi'r plant ymhellach, wrth iddynt ymateb i heriau'r gwahanol themâu, dathliadau a thymhorau'r flwyddyn.

Mae'r rheolwraig yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n fwriadus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn effeithlon ac yn creu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol yn bwrpasol. Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad diweddar mewn cyfarpar TGCh newydd sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh y plant. Yn ogystal, mae'r arian wrth gefn sydd ganddynt wedi ei glustnodi ar gyfer cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach a gwella'r adeilad a'r cyfleusterau ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn gwella cyflawniadau'r plant trwy ddarpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth lwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |